# CROESO I BWYLLGOR CYNLLUNIO CYNGOR SIR DDINBYCH

## SUT GAIFF Y CYFARFOD EI GYNNAL

Oni bai bod Cadeirydd y Pwyllgor yn nodi i'r gwrthwyneb, bydd trefn y prif eitemau yn dilyn yr agenda a nodwyd ar flaen yr adroddiad hwn.

## Cyflwyniad cyffredinol

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfod am 9.30yb ac yn croesawu pawb i'r Pwyllgor Cynllunio.

Bydd y Cadeirydd yn gofyn a oes unrhyw ymddiheuriadau dros absenoldeb a datganiadau o fuddiannau.

Bydd y Cadeirydd yn gwahodd Swyddogion i roi cyflwyniadau byr i'r eitemau ar yr agenda.

Bydd Swyddogion yn amlinellau (fel ag sy'n briodol) eitemau a fydd yn cynnwys siarad cyhoeddus, ceisiadau ar gyfer gohirio, eitemau sydd wedi'u tynnu'n ôl, ac unrhyw eitemau Rhan 2 lle bydd y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd. Bydd cyfeiriadau at unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddosbarthwyd yn Siambr y Cyngor cyn dechrau'r cyfarfod, gan gynnwys y taflenni sy'n crynhoi cyflwyniadau/newidiadau hwyr (taflenni glas) ac unrhyw gynlluniau atodol neu ddiwygiedig sy'n ymwneud ag eitemau i'w trafod.

Mae'r 'Taflenni Glas' yn cynnwys gwybodaeth bwysig, gan gynnwys crynodeb o ddeunydd a dderbyniwyd mewn perthynas ag eitemau ar yr agenda rhwng cwblhau'r prif adroddiad a'r diwrnod cyn y cyfarfod. Mae'r taflenni hefyd yn nodi trefn arfaethedig y ceisiadau cynllunio, sy'n cymryd i ystyriaeth unrhyw geisiadau i siarad yn gyhoeddus.

Mewn perthynas â threfn yr eitemau, bydd disgwyl i unrhyw Aelodau sydd am ddwyn eitem i'w thrafod wneud cais yn union ar ôl cyflwyniad y Swyddogion. Rhaid i unrhyw gais o'r fath fod yn gynnig ffurfiol a bydd pleidlais ar y cais.

Mae'r Pwyllgor Cynllunio yn cynnwys 30 o Aelodau Etholedig. Yn unol â phrotocol, mae'n rhaid i 50% o Aelodau'r Pwyllgor fod yn bresennol i sefydlu cworwm ac i sicrhau bod modd ystyried eitem a phleidleisio ar eitem.

Caiff Cynghorwyr Sir sydd ddim yn aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio fynychu a siarad ar eitem, ond ni allant wneud cynnig, na phleidleisio.

## YSTYRIED CEISIADAU CYNLLUNIO

## Y drefn i'w dilyn

Bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi'r eitem sydd i'w thrafod nesaf. Mewn perthynas â cheisiadau cynllunio, cyhoeddir rhif y cais, sail y cynnig a'r lleoliad, yr Aelodau lleol perthnasol ar gyfer yr ardal, ac argymhelliad y Swyddog.

Os oes yna siaradwyr cyhoeddus ar eitem, bydd y Cadeirydd yn eu gwahodd i annerch y Pwyllgor. Os oes siaradwyr yn erbyn ac o blaid cynnig, gofynnir i'r siaradwr sydd yn erbyn i siarad yn gyntaf. Bydd y Cadeirydd yn atgoffa siaradwyr bod ganddynt hyd at 3 munud i annerch y Pwyllgor. Mae gan siarad cyhoeddus ei brotocol ei hunan.

Lle bo hynny'n berthnasol, bydd y Cadeirydd yn cynnig cyfle i'r Aelodau ddarllen unrhyw wybodaeth hwyr ar yr eitem ar y 'Taflenni Glas' cyn parhau.

Os oes unrhyw Aelod am gynnig y dylid gohirio eitem, gan gynnwys ceisiadau i Banel Archwilio Safle ymweld â'r safle, dylid gwneud y cais ynghyd â'r rheswm cynllunio, cyn unrhyw siarad cyhoeddus neu drafodaeth am yr eitem honno.

Cyn unrhyw drafodaeth, bydd y Cadeirydd yn gwahodd swyddogion i roi cyflwyniad cryno i'r eitem lle credir bod hyn yn werth chweil yng ngolau natur y cais.

Mae sgriniau arddangos yn Siambr y Cyngor a ddefnyddir i ddangos ffotograffau neu gynlluniau a gyflwynir gyda cheisiadau. Cymerir y ffotograffau gan Swyddogion i roi argraff gyffredinol i Aelodau o safle a'i amgylchedd, ac nid eu bwriad yw cyflwyno achos o blaid neu yn erbyn cynnig.

Bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi  bod yr eitem yn agored am drafodaeth ac yn rhoi cyfle i Aelodau siarad a rhoi sylwadau am yr eitem.

Os oes unrhyw gais wedi bod yn destun Panel Archwilio Safle cyn y Pwyllgor, bydd y Cadeirydd fel rheol yn gwahodd yr Aelodau hynny a fynychodd, gan gynnwys yr aelod lleol, i siarad yn gyntaf.

Yn achos yr holl geisiadau eraill, bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r aelod(au) lleol siarad yn gyntaf, os yw ef/nhw yn dymuno gwneud hynny.

Fel rheol, rhoddir hyd at bum munud i Aelodau siarad, a bydd y Cadeirydd yn llywio'r drafodaeth yn unol â Rheolau Sefydlog.

Unwaith bod aelod wedi siarad, ni ddylai ef/hi siarad eto oni bai ei fod ef/hi am esboniad o bwyntiau a gododd yn y drafodaeth, a rhaid i hynny hefyd ddigwydd ar ôl i'r holl Aelodau eraill gael cyfle i siarad, a gyda chaniatâd y Cadeirydd.

Ar derfyn trafodaeth yr Aelodau, bydd y Cadeirydd yn gofyn i Swyddogion ymateb yn ôl yr angen i gwestiynau a phwyntiau a godwyd, gan gynnwys cyngor ar unrhyw benderfyniad sy'n mynd yn groes i'r argymhelliad.

Cyn symud ymlaen at y bleidlais, bydd y Cadeirydd yn gwahodd neu'n gofyn am eglurhad o gynigion ac eilyddion i'r cynigion o blaid neu yn erbyn argymhelliad y Swyddog, neu unrhyw benderfyniadau eraill sy'n gofyn am ddiwygiadau i gynigion. Pan gaiff cynnig ei wneud yn groes i argymhelliad y Swyddog, bydd y Cadeirydd yn gofyn am eglurhad o'r rheswm/rhesymau cynllunio dros y cynnig hwnnw, er mwyn i hyn gael ei gofnodi yng Nghofnodion y cyfarfod. Mae'n bosibl y bydd y Cadeirydd yn gofyn am sylwadau gan y Swyddog Cyfreithiol a Chynllunio am ddilysrwydd y rheswm/rhesymau a nodwyd.

Bydd y Cadeirydd yn gwneud cyhoeddiad i nodi bod y drafodaeth ar ben, a bod y pleidleisio i ddilyn.

# Y drefn bleidleisio

Cyn gofyn i Aelodau bleidleisio, bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi pa benderfyniadau a wnaed a sut fydd y bleidlais yn cael ei chynnal. Gellir gofyn am esboniad pellach ynghylch newidiadau, amodau newydd ac ychwanegol a rhesymau dros wrthod er mwyn sicrhau nad oes unrhyw amwysedd yn yr hyn y mae'r Pwyllgor yn pleidleisio o'i blaid neu yn ei erbyn.

Os yw unrhyw aelod yn gwneud cais am Bleidlais wedi'i Chofnodi, mae'n rhaid ymdrin â hyn yn gyntaf yn unol â'r Rheolau Sefydlog.  Bydd y Cadeirydd a Swyddogion yn egluro'r drefn i'w dilyn.  Bydd enwau bob un o'r Aelodau pleidleisio sy'n bresennol yn cael eu galw allan, a bydd gofyn i'r Aelod nodi a yw eu pleidlais o blaid neu yn erbyn rhoi caniatâd neu ymwrthod. Bydd Swyddogion yn cyhoeddi canlyniad y bleidlais ar yr eitem.

Os yw pleidlais arferol i ddigwydd trwy gyfrwng y system bleidleisio electronig, bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r Swyddogion weithredu'r sgrin bleidleisio yn y Siambr, a phan ofynnir iddynt wneud hynny, mae'n rhaid i'r Aelodau gofnodi eu pleidlais drwy bwyso'r botwm priodol.

Mae gan Aelodau 10 eiliad i gofnodi eu pleidleisiau unwaith bo'r sgrin wedi ymddangos.

Os yw'r system bleidleisio electronig yn methu, gellir cynnal y bleidlais drwy ddangos dwylo. Bydd y Cadeirydd yn esbonio'r drefn sydd i'w dilyn.

Ar derfyn y bleidlais, bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi'r penderfyniad ar yr eitem.

Pan fydd penderfyniad ffurfiol y Pwyllgor yn groes i argymhelliad y Swyddog, bydd y Cadeirydd yn gofyn i Aelodau gytuno'r broses a ddefnyddir i ddrafftio amodau cynllunio neu resymau dros wrthod, er mwyn rhyddhau'r Tystysgrif Penderfyniad (e.e. dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Cynllunio, i'r Swyddog Cynllunio mewn cysylltiad ag Aelodau Lleol, neu drwy gyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor Cynllunio ar gyfer cadarnhad).